

# Pecyn Gwybodaeth Gymunedol

## BROSIECT STORIO YNNI PENTIR



Mae Lightsource bp yn gweithio ar gynnyg ar gyfer prosiect storio ynni ym Mhentir, Bangor, Gwynedd. Byddwn yn ariannu ac yn gweithredu prosiect storio ynni 57MW/228MWh (4 awr o hyd) wedi'i gysylltu â'r rhwydwaith trydan lleol. Bydd y batri yn hwyluso integreiddio ynni adnewyddadwy i'r grid, gan helpu i gefnogi trydan cost isel a gwell dibynadwyedd y grid trydan.

Rydym wedi dewis y safle hwn ar ôl ystyriaeth ofalus, ac rydym bellach yn cynnal ystod eang o asesiadau amgylcheddol i helpu i lunio ein cynlluniau. Mae'r rhain yn cynnwys tirwedd ac elfennau gweledol, treftadaeth ac archaeoleg, ecoleg, sŵn, llifogydd a rhagor.

Rhan allweddol o ddatblygu cynlluniau ar gyfer y prosiect storio ynni yw ymgysylltu â chymunedau lleol, felly rydym yn cynnal digwyddiad gwybodaeth i arddangos ein cynlluniau a chasglu adborth. Bydd aelodau o dîm Lightsource bp wrth law i ateb unrhyw gwestiynau am y cynnyg gan drigolion lleol a phartïon sydd â diddordeb.

## Ystadegau



96 o gynwysyddion batri



Cyferth ag anghenion ynni 23,000 o gartrefi<sup>1</sup>



6.5 erw o dir



40 mlynedd o fywyd gweithredol

Bydd y prosiect hwn yn cyfrannu at dargedau sero net Llywodraeth Cymru.

<sup>1</sup>Yn seiliedig ar ddefnydd trydan blyneddol cymedrig o 3.6MWh/blwyddyn (<https://www.gov.uk/government/statistics/national-energy-efficiency-dataframework-need-report-summary-of-analysis-2023>)

Cymerwch ran!

DIGWYDDIAD  
GWYBODAETH  
GYMUNEDOL

21 Mai 2024 yn:  
Neuadd Bentref Rhiwlas, Rhiwlas, Bangor  
LL57 4GA

Galwch heibio unrhyw bryd rhwng 3pm a 6pm

Rydym wedi sefydlu tudalen we benodol ar gyfer y prosiect arfaethedig hwn yn: [lightsourcebp.com/uk/projects/pentir-energy-storage-project](https://lightsourcebp.com/uk/projects/pentir-energy-storage-project) gyda rhagor o wybodaeth am y prosiect a chyfleoedd i gysylltu â ni i drafod y cynnyg.



# Ein Cynigion

## PROSIECT STORIO YNNI ARFAETHEDIG YM MHENTIR

Rydym nawr yn ymgynghori ar y cynlluniau fel rhan o'r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio statudol cyn eu cyflwyno i Gyngor Gwynedd i'w penderfynu.

**Rhywogaethau Cynhenid**  
Rydym wedi cynnal Arolwg Cynefin Cam 1 Estynedig i ffrurfio'r cynllun gosodiad a mesurau lliniaru adeiladu.

**Effaith Treftadaeth Ddiwylliannol**  
Rydym yn ymwybodol bod safleoedd o effaith ddiwylliannol a gwyddonol yn yr ardal, ac rydym wedi comisiynu arolygon annibynnol i sicrhau y bydd ein cynigion yn asesu'n llawn y potensial ar gyfer archaeoleg o fewn y safle.

**Plannu Llystyfiant Newydd**  
Byddwn yn cyflwyno cynllun plannu manwl yn rhan o'r cais cynllunio, a fydd yn canolbwyntio ar sgrinio golygfeydd posibl o'r gosodiad gan ddefnyddio llystyfiant a chynyddu bioamrywiaeth.

**Mynediad (➔)**  
Bydd y gwaith adeiladu a'r mynediad gweithredol arfaethedig o ffordd fynediad newydd a adeiledir yn arwain o Lôn Fodolydd i'r safle.

**Sŵn**  
Rydym wedi cynnal asesiad sŵn sylfaenol i gefnogi'r cais cynllunio, i sefydlu'r lefelau sŵn cefndir presennol yn y derbynyddion sŵn agosaf. Bydd yr asesiad hwn yn ein galluogi i ddarparu'r mesurau lliniaru angenrheidiol, yn ogystal â mewnbwn i osodiad y cynnig.

**Perygl Llifogydd**  
Mae strategaeth ddraenio yn cael ei datblygu i sicrhau bod llifogydd yn cael eu lliniaru ar y safle. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i helpu i ddatblygu'r strategaeth ddraenio.

**Golygon a Sgrinio**  
Mae nifer gyfyngedig o eiddo o amgylch y safle ac mae'r eiddo preswyl agosaf i'r gogledd-orllewin, i'r gorllewin a'r de. Mae'r safle'n elwa o sgrinio naturiol. Mewn ardaloedd lle mae angen plannu mesurau lliniaru, byddwn yn cynnwys plannu â byndiau. Bydd y sgrinio naturiol hefyd yn helpu i wella bioamrywiaeth ar y Safle.

**Llwybr Cebll**  
Ar hyn o bryd, nid yw'r llwybr cebll sy'n cysylltu'r prosiect ag is-orsaf y Grid Cenedlaethol wedi'i gwblhau eto. Ceisir caniatâd cynllunio ar wahân yn dilyn asesiad technegol a thirfesur. Yn gyffredinol, mae ceblau wedi'u cynnwys mewn ffos danddaearol rhwng y safle a'r Is-orsaf gyswllt.

**Llystyfiant Presennol**  
Wrth ddatblygu'r gosodiad rydym wedi ceisio cynnal y rhan fwyaf o'r llystyfiant presennol o amgylch perimedr y safle, gan gadw coed a gwrychoedd i warchod bioamrywiaeth a darparu sgrinio naturiol.

**Graddio Tir Amaethyddol**  
Mae Mapiâu Dosbarthiad Tir Amaethyddol Rhagfynegol (ALC) yn dangos bod y safle yn cynnwys tir Gradd 3b a Gradd 5.

**Hybu Bioamrywiaeth**  
Bydd Cynllun Rheoli Bioamrywiaeth pwrpasol yn sicrhau bod y cynefinoedd presennol a newydd yn cael eu gwella neu eu creu er budd bywyd gwylt lleol. Yn rhan o'r fenter hon, bydd ein cynlluniau plannu tirwedd, hadu a chreu cynefinoedd yn canolbwyntio ar rywogaethau cynhenid. Rydym yn awyddus i glywed gan unrhyw wenywyr lleol a sefydliadau rheoli tir a gweithio gyda nhw i gefnogi bywyd gwylt a rhoi hwb i'r cynefinoedd lleol.

# Cwestiynau Cyffredinol

## Pam mae'r prosiect hwn yn bwysig?

Mae prosiectau batri yn rhan hanfodol o drawsnewid i rwydwaith trydan carbon isel, gan ganiatáu i ni gydbwysu'r grid a chynyddu faint o ynni adnewyddadwy a gynhyrchir yn lleol ac a ddefnyddir ar draws y Deyrnas Unedig. Mae hyn nid yn unig yn lleihau ein dibyniaeth ar danwydd ffosil, ond mae hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddiogelwch ynni a phrisiau trydan is. Mae storio batri yn rhan hanfodol o daith y DU i gyflawni Net Sero erbyn 2050.

## Beth yw batri a sut mae'n gweithio?

Mae system storio ynni batri (BESS) yn gyfleuster modiwlaid sy'n gallu storio a rhyddhau ynni a gynhyrchir gan unrhyw ffynhonnell pŵer, yn gweithio mewn ffordd debyg i batri cartref safonol. Mae'n cynnwys sawl cydran gan gynnwys unedau batri, gwrthdroyddion, ac is-orsaf i gysylltu â'r rwydwaith trawsyrru lleol.

Gan ddefnyddio'r batri, mae'n bosibl lleihau costau ynni i ddefnyddwyr trwy storio'r ynni cost isel a gynhyrchir gan ffynonellau adnewyddadwy yn ystod cyfnodau heulog neu wyntog, a'i ryddhau yn ystod cyfnodau galw brig. Gall cyfleusterau batri hefyd wella sefydlogrwydd y grid pŵer trwy ddarparu cyflenwad ynni dibynadwy wrth gefn, gan ohirio'r angen am uwchraddio costus sy'n cymryd llawer o amser.

## A yw prosiectau storio ynni yn achosi risg tân neu ddiogelwch?

Mae'r risg tân ar gyfer batri fel y rhain yn hynod o isel, ac mae achosion o danau batri yn brin. Bydd y batri yn dod gyda'r dechnoleg ddiweddaraf a bydd wedi ei integreiddio â mesurau diogelwch uwch. Bydd hyn yn cynnwys nodweddion megis mynediad allanol yn hytrach na mynediad mewnol, ac unedau unigol o fewn pob cynhwysydd sy'n cael eu selio a'u monitro gyda'u system llethu tân eu hunain. Mae hyn yn golygu, os bydd cell sengl yn methu, bod rhan fach o'r batri wedi'i hynysu'n drydanol, heb beryglu diogelwch tân gweddill yr uned gynhwysydd, gan leihau'r risg o ddirod ar raddfa fwy.

Bydd y prosiect yn cael ei ddatblygu gyda Chynllun Rheoli Tân pwrpasol, wedi'i greu ar y cyd â'r awdurdodau lleol perthnasol a'r frigidân lleol. Mae diogelwch yn werth craidd yn Lightsource bp ac mae pob un o'n prosiectau batri yn cael eu datblygu gan ystyried y safonau diogelwch uchaf.

## Sut bydd yr offer yn cael eu diogelu?

Bydd y prosiect storio ynni yn cael ei amgáu gan ffens rhwyll weldio a giât tua 2 fedr o uchder, a bydd camerâu TCC yn monitro'r ffens derfyn a'r ardal o fewn y prosiect. Bydd y rhain yn cael eu lleoli'n benodol i sicrhau nad ydyn nhw'n amharu ar breifatrwydd preswylwyr.


## A fydd y batri yn swllyd?

Gall prosiect storio ynni gynhyrchu sŵn o wahanol ffynonellau, gan gynnwys y system oeri, gwyntyllau, ac electroneg â phŵer. Ar hyn o bryd rydym yn cynnal Asesiad Effaith Sŵn manwl, fodd bynnag, yn seiliedig ar leoliad y batri a'r pellter o ardaloedd preswyl, disgwylir mai bychan iawn fydd y tebygolrwydd o aflonyddwch sŵn i aelodau'r gymuned lleol. Os bydd angen byddwn yn gweithredu mesurau i liniaru unrhyw effaith bosibl.

## A fydd y prosiect storio ynni yn achosi aflonyddwch traffig?

Unwaith y bydd y prosiect storio ynni yn ei le, ychydig iawn o waith cynnal a chadw y bydd ei angen arno a ni fyddai ymweliadau misol mewn ceir cyffredin neu gerbydau 4x4 yn achosi unrhyw darfu ar draffig. Tra bydd y batri yn cael ei adeiladu, gweithredir cynllun rheoli traffig.

Mae'r map hwn yn gyfuniad o gyfeirnod map yr Arolwg Ordnans: SH 55494 67891 a delweddau o'r awyr dyddiedig [2023]





## Pwy ydyn ni?



Mae Lightsource bp yn arwain y farchnad fyd-eang ym maes ariannu, datblygu a rheoli prosiectau storio a solar ar raddfa fawr yn y tymor hir. Rydym yn gweithio'n agos gyda busnesau a chymunedau lleol i gyflenwi ynni glân, dibynadwy ac am bris cystadleuol. Rydym yn ymroddedig i sicrhau dyfodol carbon isel, ac i gwrdd â her ddeuol y galw cynyddol am ynni ochr yn ochr â'r angen i leihau allyriadau, yn y DU ac yn fyd-eang.

## Ymgysylltu â'r gymuned

Mae'n bwysig i ni fod y gymuned leol yn cael gwybod yn llawn am y cynlluniau ar gyfer y safle, ac yn cael y cyfle i wneud sylwadau a dysgu am y cynnig. Byddwn yn cynnal digwyddiad gwybodaeth i roi manylion am ein syniadau prosiect ar hyn o bryd, ac rydym yn croesawu'ch adborth.

Cynhelir y digwyddiad gwybodaeth ar 21 Mai 2024

Neuadd Bentref Rhiwlas, Rhiwlas, Bangor  
LL57 4GA

Galwch heibio unrhyw bryd rhwng 3pm a 6pm

Gweler rhagor o wybodaeth ar-lein yn  
[lightsourcebp.com/uk/projects/pentir-energy-storage-project](https://lightsourcebp.com/uk/projects/pentir-energy-storage-project)



## Adborth

Gallwch roi eich adborth i ni ar-lein trwy lenwi ffurflen yn:  
[lightsourcebp.com/uk/projects/pentir-energy-storage-project](https://lightsourcebp.com/uk/projects/pentir-energy-storage-project)

Os hoffech gopi caled, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

Y dyddiad cau ar gyfer sylwadau yw: **Dydd Mawrth 4 Mehefin 2024**

## Cysylltu â ni

Mae'r cylchlythyr hwn yn rhoi trosolwg byr o Brosiect Storio Ynni Pentir. Am ragor o wybodaeth, ewch i:  
[lightsourcebp.com/uk/projects/pentir-energy-storage-project](https://lightsourcebp.com/uk/projects/pentir-energy-storage-project)

Gallwch hefyd gysylltu â thîm y prosiect ar:

Ffôn: **0333 200 0755**

E-bost: **pentirenergystorageproject@lightsourcebp.com**

Ysgrifennu at: **Freeport GRASSHOPPER CONSULT**  
(nid oes angen stamp na chyfeiriad pellach)